

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDUR 6.30 NOS FAWRTH 3 MEDI 2019.

PRESENNOL: Cynghorydd - Eric Roberts, Cadeirydd

Cynghorwyr J. Abbott MBE, C. McDermott, S. Conrad-Smith, S. Magee, P. M. Parry, K. Roberts, H. B. Rowlands, D. Rhys Thomas J.P. a D. A. Williams.

1. **YMDDIHEURIADAU – Cynghorwyr** A. D. McCann a Geoff McGinn.
2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB** - Cyng. K Roberts eitem 6.3 cais cynllunio VAR/2019/61.

3. **SAFLE HAMDDEN**

Cytunwyd y dylai'r llythyr oedd i'w anfon at CSYM ynghylch ailbennu'r brydles yn cynnwys cais bod y ddogfen drosglwyddo yn cadarnhau'r sefyllfa o ran darparu cymorth cyfreithiol.

4. **CYFRIFON TERFYNOL 2018/19**

Nodwyd bod yr Archwilydd Allanol wedi cymeradwyo cyfrifon 2018/19 ac nad oedd unrhyw faterion wedi'u codi.

5. **PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

FPL/2019/183 Porth Diana Boat Yard, Ffordd Ravenspoint, Bae Trearddur

Cais llawn ar gyfer addasu ag ehangu - caniatáu.

6. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

- 6.1 LUE/2019/10 15 Parc Isallt Park, Trearddur Bay.

Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol annedd preswyl - caniatawyd

6.2 **LUP 2019/8 Tir ger Trearddur Bay Hotel, Bae Trearddur**

Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon (Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig) i gadarnhau nad yw amod (03) (Cofrestr Gosodiadau'r Uned Wyliau) ar gais cynllunio 46C149N/ECON/FR dyddiedig 24.03.14 a'r Cytundeb Adran 106 amgaeedig dyddiedig 19.03.14 yn atal nac yn rhwystro'r 27 bwthyn gwyliau rhag cael eu gwerthu, eu prydlesu na'u gwaredu mewn unrhyw fodd arall naill ai fel 27 o fythynnod gwyliau sy'n cael eu gwerthu ar y farchnad agored, neu fel bythynnod gwyliau unigol sy'n cael eu gwerthu ar y farchnad agored heb unrhyw waharddiad

Mynegodd yr Aelodau nifer o bryderon:

- Roedd yr ardal eisoes yn orlawn o ddatblygiadau mawr yn aros i gael eu hadeiladu.
- Ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn estyniad i lety gwyliau gwesty Bae Trearddur mwyach ac ni fyddai yn parhau o dan eu rheolaeth.
- Ni fyddai'r cynnig yn creu'r swyddi ychwanegol a addawyd fel rhan o'r cais gwreiddiol

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 6.30 NOS FAWRTH 3 MEDI 2019.

- Ystyriwyd bod y cynnig un cam i ffwrdd o ymgais i geisio datblygu anheddau parhaol, pe bai hyn yn digwydd nid oedd y bythynnod cynlluniedig yn dai addas nag yn rai fforddiadwy i drigolion lleol.
- Nid oedd y cynnig yn hyrwyddo'r Gymraeg
- Roedd materion yn ymwneud â draenio a llifogydd i'w hailystyried.

6.3 VAR / 2019/61 Garreg Eithin, Lon Crecrist, Bae Trearddur.

Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (02) o ganiatâd cynllunio rhif 46C621 (Addasu ac ehangu yn cynnwys modurdy) er mwyn newid lleoliad a dyluniad y modurdy - dim sylwadau ac eithrio i gwestiynu pam y byddai'r modurdy yn cael ei hadeiladu gryn bellter o'r annedd.

6.4 46C572B Hysbysiad Apêl – Glantraeth Farm, Bae Trearddur.

Cais llawn ar gyfer addasu tri o adeiladau amaethyddol segur i ddibenion cyflogaeth defnydd preswyl ategol

Enw'r sawl sy'n apelio: John Tyson Williams LLP

Dyddiad dechrau'r apêl: 21.08.2019

6.5 HHP/2019/170 Rhianfa Cottage, Lon St. Ffraid, Bae Trearddur.

Cais llawn i addasu ac ehangu - Roedd pryder yn parhau ynghylch mynediad i'r safle.

7. MATERION CYNLLUNIO ERAILL

7.1 ENF/2019/114 - nodwyd

Tyn Towyn Caravan Park, Lon St Ffraid, Bae Trearddur.

8. HYFFORDDIANT

Cyflwynwyd rhestr o ddigwyddiadau hyfforddi Un Llais Cymru - Mynegodd Cyng. David Williams ddiddordeb yn yr hyfforddiant Ymgysylltu â'r Gymuned.

9. CYFARFOD NESAF 24.9.2019